"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Chwefror, 2026**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Michael Strain

98. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

Nid oedd unrhyw gyhoeddiad i'w wneud.

99. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

100. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed IONAWR, 2026

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 97 – cymal (1) Eitem 81 Materion Ffyrdd

(a) Yswiriant – adroddodd y Clarc iddi gysylltu a'r Cwmni Yswiriant Zurich a chafwyd cadarnhad fod y lloches ger y Feddygfa ym Motwnnog wedi ei ychwanegu at y polisi heb unrhyw bremiwm ychwanegol ar hyn o bryd gan i'r Cwmni Yswiriant ei hebgor am y tro. Ar yr un pryd gofynnwyd am yswirio'r potiau blodau (chwech ohonynt) ac eto cafwyd cadarnhad na fyddai premiwm ychwanegol am y tro ond byddai'r premiwm yn codi oddeutu £30 y tro nesaf y bydd yn cael ei adnewyddu.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(b) Grant GwyneddNi – deallwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts fod y coed a'r gwrychoedd bellach wedi eu derbyn gan Mr. Llifon Jones, Garddwr, ac y byddai'n eu plannu ymhen ychydig ddyddiau.

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad o £1,850.00 am y coed a'r gwrychoedd a £250 am lafur Llifon Jones yn dilyn cwblhau'r gwaith.

(2) Eitem 89 – Praesept 2026/27

Penderfynwyd anfon y llythyr a ganlyn at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nhreth y Cyngor:

"...yn dilyn cyhoeddiad fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu codi treth y Cyngor 5.2% penderfynwyd gwrthwynebu'r codiad ar sail fod treth y Cyngor yn codi yn uwch na lefel chwyddiant unwaith eto – anfonwyd llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd fel a ganlyn: "O gofio fod costau byw yn uchel a nifer o'r trigolion yn ei chael yn anodd i gael dau ben llinyn ynghyd, teimlir fod codi'r dreth i'r lefel yma yn hollol anheg ac yn wir yn anfoesol o gofio'r hinsawdd yr ydym yn byw ynddi. Bydd y codiad yma yn gosod mwy byth o straen ariannol ar ein trigolion, yn bennaf teuluoedd ifanc a phobl hŷn ein hardal

sydd yn ei chael hi yn anodd fel ac y mae hi i gael dau ben llinyn ynghyd. Dylech hefyd ystyried bod lefelau cyflogau Gwynedd ymhell o dan gyfartaledd gweddill Cymru (36 mil y flwyddyn, gwryw 32 mil y flwyddyn, benyw). Dim ond 15.6 % o drigolion Gwynedd sydd yn cael cymorth gyda eu Treth Cyngor. Mae'r gostyngiad yma yn cael eu hawlio yn bennaf gan bensiynwyr. Dim ond canran fechan o deuluoedd ifanc yn y categori incwm isaf, sy'n derbyn CTR.
Gofynnwn i chi, a'r Cynghorwyr ystyried yn ofalus yr effaith y bydd codi Treth y Cyngor 5.2% yn ei gael ar drigolion Gwynedd."

(3) Eitem 92 – Materion Ffyrdd

Cyflwynwyd atebiad y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd, i'r cwynion anfonwyd ato yn dilyn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:

1. "Pant am Penbryn, Bryncroes – Yn dilyn archwiliad o'r safle mae'r tyllau yma wedi cael sylw brys, a bellach wedi cael ei lenwi.
2. Saithbont, Botwnnog – Fel yr uchod, y tyllau bellach wedi cael sylw.
3. Bodnithoedd am Tre'r Ddol, Sarn Mellteyrn – Y safle eisoes wedi cael ei adnabod fel lleoliad 'seepage', gyda waith seidio i ymyl y ffwrdd wedi'i rhaglennu i'r dyfodol agos. Am y cyfamser hoffwn nodi mae'r safle ar y cylchdaith graeanu ac felly cael ei drin ar rhagolygon o eira/rhew."
4. **Eitem 94 – Ceisiadau am gyfraniadau ariannol**

   Derbyniwyd ymateb gan Un Llais Cymru yn cadarnhau fod gan y Cyngor yr hawl i brynu diffibliwr o dan Adran 137 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol
5. **Eitem 97 – Polisi Gosodiadau Lleol a Chytundeb Adran 106 – Dogfen Ddrafft**

   Cyflwynwyd y ddogfen ddrafft Polisi Gosodiadau Lleol a Chytundeb Adran 106 (ardaloedd Cymraeg).

   Pendefynwyd cefnogi'r cyfryw.

   Yn y cyswllt hwn, derbyniwyd :

   Ymateb ADRA mewn llythyr dyddiedig 3ydd Chwefror, 2026 – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen a bydd yn rhan o'r cofnodion gan ei fod yn hirfaith.

   Yr un modd derbyniwyd ymateb gan Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

   "Rwy'n ymwybodol eich bod wedi derbyn ymateb gan Adra i'ch llythyr, lle maent yn cadarnhau y byddant yn cadw at y cynnig a wnaethant o fewn eu cais cynllunio gwreiddiol i "ddatblygu Polisi Gosod Lleol ar sail cyswllt cydnabyddedig ar sail lefel gymunedol".

O safbwynt Polisi Tai Cyffredin y Cyngor, mae'r mater yma wedi derbyn cryn sylw dros y blynyddoedd diwethaf, ac gwnaed safbwynt y Cyngor yn glir yng nghyfarfod Cyngor Llawn 2 Hydref 2025 gan y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo – gellir gweld y datganiad hwnnw yma: Cwestiynau Cyngor Llawn 2/10/25 (Cwestiwn 3). Atebwyd cwestiwn cyffelyb yng Nghyngor Llawn mis Mawrth 2023 hefyd - Cwestiynau Cyngor Llawn 02/03/2023.

Mae'r data sydd gennym o allu ieithyddol trigolion stadau cymdeithasol newydd y sir yn dangos yn glir bod y Gymraeg yn iaith fwyafrifol ar y stadau hyn, gyda 95% o drigolion yn gallu'r Gymraeg yn 'dda' neu well. Ar gyfartaledd, mae hyn 26% yn uwch na'r ward y lleolir y stad ynddi, ac yn 31% yn uwch na chanran y sir. Fis Hydref 2025, bu i'r Adran Tai ac Eiddo gyfarfod â Swyddfa'r Comisiynydd Iaith, a chafwyd cyfarfod cadarnhaol. Roeddent yn falch o weld bod ein Polisi Tai Cyffredin, sy'n rhoi pwyslais cryf ar gysylltiad lleol, a hynny ar ddwy lefel, lefel Gwynedd a'r lefel gymunedol, o gymorth i gryfhau'r

Gymraeg a bod tystiolaeth i gefnogi hynny. Canmolwyd yr arfer da yma a nodwyd y byddai'n dda i eraill efelychu esiampl Cyngor Gwynedd.

Hyderaf fod hyn yn egluro safbwynt y Cyngor, a diolchwn i'r Cyngor Cymuned am ei ohebiaeth.

Penderfynwyd gwahodd cynrychiolyd o Gwmni ADRA i gyfarfod nesaf o'r Cyngor – paratowyd llythyr gan y Gadeiryddes ac mae'n rhan o'r cofnodion hyn.

101. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd cais C26/0010/32/LL – adeiladu to dros iard bresennol yn Nhre Wen, Botwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

102. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

103. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at y materion a ganlyn:

1. Modurwyr yn cael diffyg gwelediad pan yn ceisio troi am Trigwm, Sarn, ar Allt Mellteyrn, a hynny oherwydd y goeden sydd ar y clawdd ger Mellteyrn Ganol (y ty ochr chwith wrth fynd i fyny allt Mellteyrn).
2. Eto ar y triongl am Trigwm, Sarn y coed yn dechrau disgyn nawr yn y gwytoedd a'r gwlybanieth.
3. Gwydrau wedi eu taflu i'r clawdd ar ôl pasio Pencruga, Penygroeslon.

Ymhellach:

(a) tynnwyd sylw fod arwyddion 'Hells Mouth' yn lle 'Porth Neigwl' ar y ffyrdd.

Penderfynwyd darganfod lle mae'r arwyddion hynny ac a ydynt yn nhiriogaeth y Cyngor.

(b) adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans fod angen barbio/tacluso'r llwybr Trewen am Neigwl Uchaf, Botwnnog ond ei bod yn disgwyl am ohebiaeth sut i ymgeisio am grant gan y Swyddog Llwybrau – yn dilyn derbyn y wybodaeth fe'i trafodir gan y Cyngor.

(c) Tynnwyd sylw unwaith eto at y goryrru i lawr Allt Mellteyrn ac addawodd Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd) y byddai'n cysylltu unwaith yn rhagor â GoSafe.

"B"

Adra (Tai) Cyfyngedig,
Tŷ Coch, Llys y Dderwen,
Parc Menai,
Bangor, Gwynedd
LL57 4BL

0300 123 8084
ymholiadau@adra.co.uk
adra.co.uk

@adrataicyf

Dyddiad: 03/02/2026

Gwenda Roberts
Clarc Cyngor Cymdeithas Botwnnog
Gwyndy
Bryncroes
Sarn
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8ET

Annwyl Gwenda Roberts,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26ain o Ionawr 2026 ar ran Cyngor Cymdeithas Botwnnog a'r ddogfen ddrafft Polisi Gosodiadau Lleol a Chytundebau Adran 106 (ardaloedd Cymraeg).

Mae'n werth cyfeirio at ddyfarniad a phenderfyniad yr arolygydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru wedi ddyddio 16eg o Ragfyr 2025 ar gais cynllunio Cae Capel, Botwnnog yn fy ymateb yn y cyd-destun o'ch cais i ddatblygu polisi gosod lleol fydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg. O fewn y Penderfyniad, mae'r arolygydd yn dod i'r casgliad ar sail y dystiolaeth, na fyddai'r cynnig o ddatblygu cartrefi fforddiadwy ar safle Cae Capel yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd â'r asesiad iaith fu'n rhan o'r cais cynllunio, ynghyd â sylwadau swyddogol uned iaith Cyngor Gwynedd fel rhan o'r broses i ystyried y cais cynllunio.

Mae'r arolygydd hefyd yn nodi o ganlyniad i statws Botwnnog o fewn y Cynllun Datblygu Lleol fel pentref gwasanaeth, y disgwylir datblygiadau tai mewn canolfannau o'r fath i gyfarch yr angen tai ehangach a bod dim rhaid datblygu Polisi Gosod Lleol na Pholisi Gosod ar sail Amod 106.

Mae'r gymysgedd o eiddo a daliadaethau ar gyfer safle Cae Capel wedi'u llunio i gwrdd ag anghenion tai amrywiol, gan gynnwys tai anghenion cyffredinol, byngalos wedi dynodi ar gyfer pobl hŷn a/neu bobl gydag anabledd, a thai rhent canolraddol, rhai gyda opsiwn i brynu, fel a ganlyn:

Math eiddo	Math daliadaeth	Nifer
Byngalo 2 ystafell wely	Rhent Cymdeithasol	4
Tŷ 2 ystafell wely	Rhent Cymdeithasol	4
Tŷ 3 ystafell wely	Rhent Cymdeithasol	4
Tŷ 2 ystafell wely	Rhent Canolraddol	2
Tŷ 3 ystafell wely	Rhent Canolraddol	1
Tŷ 3 ystafell wely	Rhent Canolraddol *(gyda opsiwn prynu)*	3
CYFANSWM		**18**

Wrth gydnabod yr angen am fwy o gartrefi fforddiadwy, mae Adra hefyd yn ystyried y pwysigrwydd a chydbwysedd o warchod a chynnal nodweddion cymunedau gwledig. Defnyddir Polisïau Gosod Lleol i gyflawni amrywiaeth eang o

Mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei rhestru â rheolau elusennol. Rhif Cymdeithas Gofrestredig 30776R. Rhif Landlord Cofrestredig Cymdeithasol L152.
Adra (Tai) Cyfyngedig is a Registered Society under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, registered with charitable rules. Registered Society Number 30776R. Registered Social Landlord number L152.
Swyddfa gofrestredig/Registered office: Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4BL

Adra (Tai) Cyfyngedig,
Tŷ Coch, Llys y Dderwen,
Parc Menai,
Bangor, Gwynedd
LL57 4BL

0300 123 8084
ymholiadau@adra.co.uk
adra.co.uk

@adrataicyf

amcanion rheoli tai ac amcanion polisïau tai eraill, gan gynnwys lle bod dymuniad i newid cydbwysedd cymuned neu i sicrhau cymuned gytbwys yn y cyfnod pan fo datblygiad newydd yn cael ei osod.

Mae'r cynnig wnaethpwyd gan Adra o fewn ein cais cynllunio gwreiddiol i ddatblygu Polisi Gosod Lleol ar sail cyswllt cydnabyddedig ar sail lefel gymunedol yn gynnig cymesur ac yn un rydym yn bwriadu ymrwymo iddo. Er mwyn ei ffurfioli, cyflwynwyd cytundeb Adran 106, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel rhan o'r cais apêl, fel ymrwymiad hir-dymor i drefn blaenoriaethu a rhaeadru dyrannu cartrefi yng Nghae Capel, Botwnnog.

Ein bwriad yw blaenoriaethu ymgeiswyr ar sail cysylltiad cymunedol lleol, a ddiffinnir fel ymgeisydd cymwys sydd wedi preswylio neu gweithio am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy o fewn ardal ddiffiniedig. Mae'r ardal ddiffiniedig a'r drefn rhaeadru fydd yn cael ei fabwysiadu wedi ddiffinio yn ôl ffiniau ardaloedd Cyngor Cymuned a nodir isod, ac sydd wedi gynnwys ar ffurf map yn Atodiad 1:

Blaenoriaeth 1
Ymgeiswyr mewn angen tai sydd gyda cysylltiad lleol (wedi preswylio neu gweithio 5 mlynedd neu fwy) o fewn un o'r ardaloedd cynghorau cymuned canlynol:

- Cyngor Cymuned Botwnnog
- Cyngor Cymuned Aberdaron
- Cyngor Cymuned Llanengan
- Cyngor Cymuned Tudweiliog
- Cyngor Cymuned Buan

Blaenoriaeth 2
Ymgeiswyr mewn angen tai sydd gyda cysylltiad lleol (wedi preswylio neu gweithio 5 mlynedd neu fwy) o fewn un o'r ardaloedd cynghorau cymuned canlynol:

- Cyngor Cymuned Nefyn
- Cyngor Cymuned Pistyll
- Cyngor Cymuned Llannor
- Cyngor Tref Pwllheli
- Cyngor Cymuned Llanbedrog

Blaenoriaeth 3
Ymgeiswyr cymwys mewn angen tai gyda chysylltiad lleol i Wynedd. (Diffinnir Cysylltiad Gwynedd yn rhan 3.11 o'r Polisi Gosod Cyffredin).

Mae'r drefn blaenoriaethu ymgeiswyr uchod yn gymesur i sicrhau bod y datblygiad yn cyfarch anghenion tai yr unigolion mewn mwyaf o angen, ond hefyd yn mynd peth ffordd i gydnabod a chefnogi yr angen o greu cymunedau cynaliadwy gyda nodweddion penodol gan gynnwys cymunedau gwledig ac ardaloedd ble mae'r iaith Gymraeg ar ei gryfaf.

Mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei rhestru â rheolau elusennol. Rhif Cymdeithas Gofrestredig 30776R. Rhif Landlord Cofrestredig Cymdeithasol L152.
Adra (Tai) Cyfyngedig is a Registered Society under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, registered with charitable rules. Registered Society Number 30776R. Registered Social Landlord number L152.
Swyddfa gofrestredig/Registered office: Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4BL

Adra (Tai) Cyfyngedig,
Tŷ Coch, Llys y Dderwen,
Parc Menai,
Bangor, Gwynedd
LL57 4BL

0300 123 8084
ymholiadau@adra.co.uk
adra.co.uk

@adrataicyf

Mae Adra yn hollol gytûn bod y Gymraeg yn ran allweddol o fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein cymunedau ac wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i gryfhau y Gymraeg. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gwmni Gymraeg sy'n gwneud ei ran i gefnogi'r iaith a'n diwylliant, yn chwarae rhan flaenllaw wrth helpu baratoi y sector dai cymdeithasol ar gyfer gweithredu y Safonau Iaith yn 2027; ac yn angerddol am hybu ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' fel estyniad o'r ymgyrch genedlaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg i annog cwsmeriaid a'r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 98% o staff Adra yn siaradwyr Cymraeg ac hefyd yn ran pwysig o'n cymunedau.

Fe gydnabyddir bod Adra wedi datgan yn flaenorol ei fod yn fodlon ymgysylltu gyda rhanddeiliaid fel y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir am gynnwys unrhyw Bolisi Gosod Lleol ar gyfer datblygiad Cap Capel, Botwnnog, yn amodol ar ofynion statudol a'r Côd Arweiniad, yn dilyn derbyn hawl cynllunio.

Ond, o ganlyniad i'r cais gael ei wrthod, cyflwynwyd Gytundeb Adran 106 fel rhan o'r broses apêl, sydd bellach yn disodli unrhyw feini prawf ychwanegol a ystyrir ei gyflwyno mewn Polisi Gosod Lleol, gan mae y Cytundeb Adran 106 sy'n cymryd blaenoriaeth. Er ein bod yn croesawu unrhyw adborth gan y Cyngor Cymuned yn dilyn ei gyfarfod ar y 9fed o Chwefror, dylid nodi bod y trefniadau gosod hyn bellach wedi'u sefydlu'n ffurfiol drwy'r Cytundeb Adran 106, a ni ragwelir unrhyw newid i'r meini prawf a nodwyd.

Diolchwn i'r Cyngor Cymuned am eu llythyr.

Yn gywir,

Carwyn George
Pennaeth Gwasanaeth – Cwsmeriaid a Chymunedau

Amgaeedig: Atodiad 1 – Map Ardaloedd - Botwnnog

Mae Adra (Tai) Cyfyngedig yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei rhestru â rheolau elusennol. Rhif Cymdeithas Gofrestredig 30776R. Rhif Landlord Cofrestredig Cymdeithasol L152.
Adra (Tai) Cyfyngedig is a Registered Society under the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, registered with charitable rules. Registered Society Number 30776R. Registered Social Landlord number L152.
Swyddfa gofrestredig/Registered office: Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4BL


Trefor
Llanaelhaearn
Garndolbenmaen
Ardal 2
Cymuned Pistyll
Ardal 2
Cymuned Nefyn
Llangybi
Rhoslan
Ardal 2
Cymuned Llannor
Chwilog
Ardal 1
Cymuned Tudweiliog
Ardal 1
Cymuned Buan
Ardal 2
Cymuned Pwllheli
Ardal 2
Cymuned Llanbedrog
Ardal 1
Cymuned Botwnnog
Ardal 1
Cymuned Aberdaron
Ardal 1
Cymuned Llanengan
Ardal 3
Gwynedd
SNOWDONIA
NATIONAL PARK

"C"

POLISI GOSODIADAU LLEOL

A CHYTUNDEB ADRAN 106

(ARDALOEDD CYMRAEG)

dogfen ddrafft

POLISI GOSODIADAU LLEOL
Deddf Tai 1996, Adran 167(2E)/[s.16(3)]

CYTUNDEB 106
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 106

FFYNIANT YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

POLISI GOSODIADAU LLEOL A CHYTUNDEBAU 106 (ARDALOEDD CYMRAEG)

CYFLWYNIAD

Nod y ddogfen ymgynghorol yma ydi gosod sylfaen i drafodaeth, rhwng Cyngor Gwynedd, y cymdeithasau tai a'r Cynghorau Cymuned/Tref sydd wedi adnabod yr angen i sefydlu Polisi Gosodiadau Lleol er mwyn gwarchod gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol eu cymuned. Y drafodaeth gychwynnol yma fydd yn arwain at sefydlu Polisïau Gosodiadau Lleol (a chytundebau 106 pan yn briodol) fydd yn galluogi i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â gosod tai a lleoli tenantiaid, fel modd cymesur o gyflawni nod dilys o warchod a hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg.

Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi ar ran y Cynghorau Cymuned a Thref Gwynedd, sydd wedi adnabod yr angen i sefydlu Polisïau Gosodiadau Lleol er mwyn gwarchod gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau rhag effaith niweidiol arwyddocaol Polisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd sydd yn cael ei weithredu gan y cymdeithasau tai. Mae tystiolaeth anecdotaidd y cymunedau yn cadarnhau fod Polisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd yn arwain at newid iaith y cymunedau Cymraeg yn gynt. Am hyn y daeth rhwydwaith o Gynghorau Cymuned a Thref Gwynedd ynghyd i alw am fwy o reolaeth ac adnoddau ac am gefnogaeth yr awdurdodau i sefydlu a gweithredu polisïau fydd yn sefydlogi dirywiad y Gymraeg ac yn ei chryfhau fel iaith gymunedol yn unol ag argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg; yn unol â Nod Strategol y Cynghorau Cymyned a Thref o warchod a chynyddu defnydd y Gymraeg; ac yn unol â nod statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' sydd yn gosod cyd-destun i Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi o dan arweiniad cyngor arbenigol o fewn amrywiol feysydd priodol. Mae hyn yn cynnwys y farn gyfreithiol newydd, a gafodd Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud ag ystyried hyfywedd y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar osod tai a lleoli tenantiaid. Roedd y cyngor cyfreithiol yn cadarnhau fod gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hawl i ystyried ffyniant y Gymraeg wrth osod tai cymdeithasol os yw'n fodd cymesur o gyflawni nod dilys, megis gwarchod a hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg. Yn sgil derbyn y cyngor cyfreithiol newydd daeth Comisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r drafodaeth ynghyd a Dyfodol i'r Iaith, Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith a Chyfeillion Llŷn sydd i gyd wedi cefnogi cais y Cynghorau Cymuned a Thref.

Yn gefndir i'r ddogfen mae Arolwg Tai ac Iaith Llangwnnadl 2024, ymchwil y prosiect Perthyn yn Llŷn, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, Cynllun Peilot Dwyfor, Data Cyfrifiad 2021, Polisi Gosod Tai Gyffredin Cyngor Gwynedd, argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a phenderfyniad y Cynghorau Cymuned a Thref i'w dynodi eu hunain yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol.

SAIL STATUDOL

Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am lunio'r polisi ysgrifenedig sy'n pennu'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau a ddilynir gan y cymdeithasau tai wrth osod tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd. Wrth lunio'r polisi a elwir yn Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd mewn partneriaeth gydag Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru fe wnaeth Cyngor Gwynedd a'r cymdeithasau tai hepgor ystyried yr iaith Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau fod Cyngor Gwynedd wedi methu cadw at Safonau'r Gymraeg (dyletswydd statudol y Cyngor) wrth fethu asesu effaith y polisi ar yr Iaith Gymraeg pan gafodd ei sefydlu yn 2019. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell i Gyngor Gwynedd gynnal arolwg cynhwysfawr o effaith y polisi ac mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu peidio â wedi mynd yn groes i argymhelliad y Comisiynydd.

Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr sydd mewn 'angen tai dwys' oddi ar Gofrestr Tai Gwynedd. Mae'r Gofrestr yn cynnwys pobl o Loegr a Chymru gyfan sydd wedi cyflwyno eu henwau arni. Canlyniad y polisi ydi fod y cymdeithasau tai yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd mewn 'angen tai dwys' adleoli o ardaloedd o Loegr a gweddill Cymru o flaen pobl leol heb ystyriaeth o gwbl i'r effaith niweidiol sylweddol ar y Gymraeg. Mae'r polisi yma o fewnfudo pobl ddi-gymraeg i dai cymdeithasol yn y cymunedau mwyaf Cymraeg yn achosi niwed arwyddocaol amlwg i'r Gymraeg. Yr effaith yma sydd wedi amlygu'r angen i sefydlu a gweithredu Polisi Gosodiadau Lleol er mwyn gwarchod a hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau mwyaf Cymraeg.

Y sail statudol ar gyfer sefydlu a gweithredu Polisi Gosodiadau Lleol yw Deddf Tai 1996, Adran 167(2E)/[s.16(3)] sydd yn galluogi i Gyngor Gwynedd roi blaenoriaeth i bobl o ddisgrifiad penodol mewn cymunedau penodol, er nad ydynt yn disgyn o fewn y grwpiau diffiniedig Deddf Tai 1996 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Ddigartrefedd 2002), os oes angen.

Mae 4.28 – 4.31 o Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn cyfeirio at Adran 167(2E)/[s.16(3)] ac yn nodi – *'Mae Polisïau Gosod Lleol yn gweithio drwy gynnwys meini prawf ychwanegol at y rhai hynny yn y prif bolisi gosod fydd yn cael eu hystyried wrth osod eiddo mewn stad neu gymuned arbennig. Defnyddir Polisïau Gosod Lleol i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion rheoli tai ac amcanion polisïau tai eraill, ac maent yn cael eu datblygu fel arfer lle bo dymuniad i newid cydbwysedd cymuned neu i sicrhau cymuned gytbwys.'*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyfrifoldeb statudol tuag at gyrraedd saith nod llesiant ac un ohonynt ydi 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ddeddf yn gosod cyd-destun i Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

NOD POLISI GOSODIADAU LLEOL (ARDALOEDD CYMRAEG)

Nod Polisïau Gosodiadau Lleol (Ardaloedd Cymraeg) fydd sicrhau bod gosodiadau tai a datblygiadau tai newydd yn ardaloedd Cymraeg Gwynedd yn cynnal gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol yr ardal ac yn hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg.

SEFYDLU POLISI GOSODIADAU LLEOL (ARDALOEDD CYMRAEG)

Bydd Polisi Gosodiadau Lleol yn cael ei sefydlu drwy ymgynghoriad cymunedol a thrafodaeth, fydd yn arwain at gytundeb rhwng y gymdeithas dai briodol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned/Tref sy'n cynrychioli trigolion y gymuned lle mae'r tai wedi eu lleoli neu am gael eu datblygu.

SEFYDLU CYTUNDEBAU ADRAN 106

Bydd Polisi Gosodiadau Lleol yn aml yn gysylltiedig â chytundeb Adran 106. Mae cytundebau 106 yn galluogi i ddatblygiad gael caniatâd cynllunio am fod manylion y cytundeb Adran 106 yn gosod allan drefniadau neu fecanwaith fydd yn lliniaru effeithiau niweidiol posib y datblygiad. Bydd manylion cytundeb Adran 106 yn cyd-fynd a manylion y Polisi Gosodiadau Lleol fydd wedi cael ei sefydlu drwy gytundeb rhwng y gymdeithas dai briodol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned/Tref sy'n cynrychioli trigolion y gymuned lle mae'r tai wedi eu lleoli neu am gael eu datblygu. (gweler argymhelliad 33 adroddiad Comisiwn y Cymunedau Cymraeg)

DYRANNU TAI SYDD Â PHOLISI GOSODIADAU LLEOL (ARDALOEDD CYMRAEG)

Dyrennir tai sydd â Pholisi Gosodiadau Lleol (Ardal Gymraeg) (a/neu gytundeb 106) arnynt, mewn ffordd wahanol i'r tai a ddyrennir drwy Bolisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd. Bydd ymgeiswyr yn y lle cyntaf yn cael blaenoriaeth yn unol â'r nod o gynnal gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol yr ardal ac o hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg.

Os na fydd yna ymgeiswyr ar y rhestr fydd yn debygol o gyfrannu at gynnal gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol yr ardal nac o hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg bydd y tai yn cael eu gosod yn unol â Pholisi Gosodiadau Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth efo Grŵp Cynefin, Adra a Thai Gogledd Cymru.

HYSBYSEBU TAI SYDD Â PHOLISI GOSODIADAU LLEOL

Bydd angen i'r Polisi Gosodiadau Lleol ddiffinio rôl Cyngor Cymuned/Tref pan fydd tenantiaeth yn cael ei hysbysebu. Gall fod gan y Cyngor Cymuned/Tref rôl gefnogol fydd yn cyfrannu at rôl y gymdeithas dai berthnasol.

Bydd manylion hysbysebu'r Polisi Gosodiadau Lleol yn cael eu penderfynu drwy gytundeb rhwng y gymdeithas dai briodol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned/Tref sy'n cynrychioli trigolion y gymuned lle mae'r tai wedi ei lleoli neu am gael ei datblygu.

DATGAN DIDDORDEB

Bydd angen i'r Polisi Gosodiadau Lleol osod arweiniad clir i ymgeisydd/wyr ar sut i ddatgan fod ganddyn nhw ddiddordeb mewn cyfrannu at warchod a chynnal gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol mewn ardal benodol drwy gael tenantiaeth tŷ sydd â Pholisi Gosodiadau Lleol (Ardal Gymraeg) (a/neu 106) arno.

Bydd manylion y drefn o ddatgan diddordeb mewn tenantiaeth yn cael eu penderfynu drwy gytundeb rhwng y gymdeithas dai briodol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned/Tref sy'n cynrychioli trigolion y gymuned lle mae'r tai wedi eu lleoli neu am gael eu datblygu.

DILYSU CEISIADAU

Bydd y Polisi Gosodiadau Lleol yn gosod trefn o wirio a dilysu ceisiadau gan ymgeisydd/wyr fydd yn datgan diddordeb mewn cyfrannu at warchod a chynnal gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol mewn ardal benodol drwy gael tenantiaeth tŷ sydd â Pholisi Gosodiadau Lleol (Ardal Gymraeg) (a/neu 106) arno.

Bydd manylion y drefn yma yn cael eu penderfynu drwy gytundeb rhwng y gymdeithas dai briodol, Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned/Tref sy'n cynrychioli trigolion y gymuned lle mae'r tai wedi eu lleoli neu am gael eu datblygu.

ADDASU FFURFLEN GAIS I HWYLUSO POLISI GOSODIADAU LLEOL.

Byddai yn briodol fod ffurflen y Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn cael ei haddasu, drwy osod blwch y gellir ei dicio gan ymgeiswyr er mwyn datgan eu bod hefyd yn ymgeisio am denantiaeth Polisi Gosodiadau Lleol (Ardal Gymraeg) (a/neu 106).

Mae ffurflen y Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn gofyn i ymgeiswyr nodi sut y byddent yn disgrifio eu hunain o ran Rhyw, Statws Priodasol, Crefydd, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Grŵp Ethnig. Byddai'n briodol yng nghyswllt sefydlu Polisi Gosodiadau Lleol fod y Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd hefyd yn gofyn i bob darpar ymgeisydd ddisgrifio eu hunain yn nhermau Iaith.

Dyma fan cychwyn dogfen ymgynghorol i'w thrafod, cyn symud ymlaen i'r cam nesaf o sefydlu dogfen ddrafft o Bolisi Gosodiadau Lleol fydd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg.